

Cynllun Iaith Gymraeg



Cyflwyniad

Mae Grŵp United Welsh yn sefydliad dielw sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau cysylltiedig yn Ne Cymru. Rydym yn angerddol am adeiladu cartrefi, creu cymunedau a thrawsnewid bywydau.

Rydym yn gofalu am dros **6,300 o gartrefi** i bobl ar draws **11 ardal awdurdod lleol**, ac mae ein gwasanaethau yn helpu miloedd yn fwy yn ein cymunedau.

Rydym yn darparu amrywiaeth o lety gan gynnwys Gofal Ychwanegol a thai â chymorth, ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i ddarparu prosiectau arbenigol sy'n helpu pobl gyda'u llesiant ac yn annog byw'n annibynnol yn y gymuned.

Rydym yn cyflogi bron i **400 o bobl**

ac mae ein Grŵp yn cynnwys ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw Celtic Horizons; gwneuthurwr cartrefi ffrâm bren Celtic Offsite a Harmoni Homes, sy'n cefnogi pobl i wireddu eu breuddwyd o brynu cartref.

Mae Grŵp United Welsh wedi mabwysiadu'r egwyddor a sefydlwyd o dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**, sef y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus hyd eithaf ei allu, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Rydym wedi sefydlu mai bychan yw'r galw am wasanaethau Gymraeg ar hyn o bryd yn y meysydd lle'r ydym yn gweithio, felly credwn ei bod yn amhriodol i'r sefydliad fabwysiadu polisi cwbl ddwyieithog ar gyfer ei waith a'i ddarpariaeth gwasanaeth.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis

iaith, a chynigiwn yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â ni. Mae Grŵp United Welsh wedi **ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau yn eu lle** i ddiwallu anghenion cwsmeriaid sy'n dymuno delio â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein hamcanion yw:

- Galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sy'n trafod gydag United Welsh i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis personol yr unigolyn.
- Sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o safon uchel.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg (CIG) i **ddatblygu'r cynllun hwn** ymhellach yn unol â'u cyngor ac unrhyw ofynion Llywodraeth Cymru.

Cynllunio gwasanaeth

Wrth i ni weithredu polisïau, gwasanaethau a mentrau newydd, neu ddiwygio rhai presennol, bydd United Welsh yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r cynllun hwn.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â llunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun hwn ac o gyfrifoldebau United Welsh o dan y Ddeddf.

Mae United Welsh yn **falch o weithio mewn partneriaeth** ag eraill mewn llawer o feysydd ein busnes, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol.

- Pan fydd United Welsh yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.
- Pan fo United Welsh yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith.

Rydym eisiau **darparu'r gwasanaeth gorau posibl** i bawb rydym yn gweithio gyda nhw ac nid ydym am i ddewis iaith unigolyn amharu ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarparwn.

Byddwn yn anelu at sicrhau bod polisïau, gwasanaethau a mentrau newydd United Welsh yn hyrwyddo a **hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg** lle bynnag y bo'n briodol.



Darparu Gwasanaeth

Bydd United Welsh yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun drwy weithredu'r trefniadau a ganlyn:

- Sicrhau bod gennym ddigon o staff sy'n ddigon cymwys a hyderus i gynnig cymorth a gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg sy'n briodol i anghenion ein cwsmeriaid a'r sefydliad
- Cefnogi staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i gynorthwyo staff eraill pan gyfyd yr angen
- Codi ymwybyddiaeth staff United Welsh o'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau iaith Gymraeg trwy hyfforddi a recriwtio
- Mabwysiadu systemau neu

weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth lle bynnag y bo modd

- Sicrhau bod cytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y cynllun hwn.

Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n casgliad data felly yn y dyfodol, ar gyfer cwsmeriaid sy'n gwneud cais i fyw yn ein cartrefi, rydym yn gwybod **pa iaith yw eu dewis iaith** trwy ofyn beth yw eu dewis iaith trwy ein porth ymgeiswyr tai.

Unwaith y bydd dewis iaith unigolyn yn hysbys, byddwn yn dosbarthu contractau, canllawiau contract a chyfathrebiadau printiedig yn eu **dewis iaith** (Cymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen, fel y bo'n briodol).



Y cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Gohebiaeth ysgrifenedig a llafar

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac ymdrinnir â phob gohebiaeth yn Gymraeg yn brydlon.

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn **darparu ateb yn Gymraeg** (os oes angen ateb).

Bydd pob gohebiaeth ysgrifenedig yn dilyn sgwrs ffôn, e-bost, neu sgwrs wyneb yn wyneb yn Gymraeg, yn Gymraeg.

Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar gyfer galwad ffôn, bydd galwyr yn **cael cyfle** naill ai i barhau â'r alwad yn Saesneg neu i siaradwr Cymraeg eu ffonio'n ôl. Yna bydd ateb ysgrifenedig yn Gymraeg hefyd yn cael ei wneud os oes angen ateb pellach.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân o

unrhyw ohebiaeth, ein harfer safonol fydd sicrhau bod **y ddau fersiwn ar gael** ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasol).


Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn:

- Rhannu rhwydwaith mewnol o siaradwyr Cymraeg gyda staff sy'n gallu cynorthwyo gyda gohebiaeth Gymraeg, megis galwadau ffôn
- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ddelio â chyfathrebu megis e-byst a galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

Byddwn yn cadw cofnod o'r personau hynny sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg, a byddwn yn **cytuno ar chyfieithu**.

Os bydd United Welsh yn cychwyn gohebiaeth, yna bydd hyn yn **newis iaith y derbynnydd** os yw'n hysbys.

Bydd pob aelod o staff yn **cael arweiniad ar gydraddoldeb** iaith mewn perthynas â gohebiaeth. Os nad yw'n bosibl i'n staff ateb gohebiaeth yn Gymraeg i safon uchel, byddwn yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.



Cyfarfodydd

Mewn cyfarfodydd ffurfiol, bydd United Welsh fel arfer yn cynnal y trafodion yn Saesneg.

Fodd bynnag, byddwn yn asesu a oes angen gwasanaeth cyfieithu mewn perthynas â materion penodol a byddwn yn ceisio sefydlu dewis iaith y mynychwyr / cyfranogwyr a darparu gwasanaethau cyfieithu os oes angen digonol.

Byddwn yn **hysbysu mynychwyr, ymlaen llaw os yn bosibl**, os oes staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol.

Yn seiliedig ar ofynion mynychwyr, gellir darparu deunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.



Pan gynhelir ymweliadau cartref cwsmeriaid neu gyfweliadau a lle mai'r Gymraeg yw dewis iaith y cwsmer, **byddwn yn ymdrechu i ddarparu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg** os yw hyn yn bosibl ac yn ymarferol. Os na allwn ddarparu cyfarfod wyneb yn wyneb ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn egluro'r sefyllfa'n gwrtais **ac yn cynnig opsiynau eraill**, megis trefnu cyfieithiad Cymraeg ysgrifenedig.

Os byddwn yn methu'n rheolaidd â bodloni'r galw am gyfarfodydd wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn ystyried camau gweithredu **megis hyfforddiant neu ruglder yn y Gymraeg** yn ofyniad gorfodol wrth recriwtio rhai swyddi.

Wyneb Cyhoeddus United Welsh



Hunaniaeth Gorrfforaethol

Mae United Welsh wedi ymrwymo i ddatblygu hunaniaeth gorrfforaethol ddwyieithog a delwedd gyhoeddus ddwyieithog.

Bydd brand / logo ffisegol United Welsh yn aros yr un fath gan fod y logo a'r enw sefydliadol 'United Welsh' yn enw brand sydd wedi hen ennill ei blwyf ac yn hawdd ei adnabod gan ein cwsmeriaid.

Bydd gwybodaeth sylfaenol am United Welsh **yn ymddangos yn y ddwy iaith** ar bob dogfen gyhoeddus e.e. penawdau llythyrau, cyhoeddiadau, arwyddion, cardiau busnes, slipiau cyfarch.



Arwyddion a hysbysiadau

Pan fyddwn yn adnewyddu neu ail-godi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog.

Bydd arwyddion a godir am y **tro cyntaf yn ddwyieithog**. Bydd enwau safleoedd datblygu a grëir at ddibenion marchnata yn **Gymraeg neu Saesneg** (ddim yn ddwyieithog) a byddant yn **adlewyrchu treftadaeth leol yr ardal**. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw enwi strydoedd.

Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar ein harwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

Ein harfer safonol fydd **darparu arwyddion dwyieithog**, ond ar adegau pan ddarperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, **byddant yn gyfartal** o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.



Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau

Byddwn yn cynhyrchu ein cyhoeddiadau strategol a pherfformiad allweddol yn ddwyieithog neu'n cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Pan gyhoeddir dogfen sydd â phris, ni fydd pris fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

Byddwn yn sicrhau bod staff a'r rhai sy'n gyfrifol am argraffu yn **ymwybodol o'r polisi** a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

Byddwn yn sicrhau bod testun Cymraeg ein cyhoeddiadau o **safon uchel** a bod y cywair yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

Cyfryngau cymdeithasol

Bydd cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel arfer yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg.

Mae sylwadau ac ymholiadau a gyflwynir i United Welsh drwy ein cyfryngau cymdeithasol yn cael eu trin fel gohebiaeth. Felly, bydd sylwadau ac ymholiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn **derbyn ateb Cymraeg**.

Ymgyrchoedd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd

Mae angen ystyried pob ymgyrch hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn unigol, gan roi sylw i faint a natur y gynulleidfa darged, amgylchiadau'r ymgyrch, amseriad, galw a gwerth am arian.

Fel arfer, cynhelir ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata yn Saesneg, gydag elfennau ymgyrchu yn glynu at y cynllun hwn.

Gwefan

Mae gwefan United Welsh yn ddwyieithog, ac eithrio datganiadau i'r wasg a blogiau a gyhoeddir ar y wefan.

Os byddwn yn derbyn cais am ddatganiad i'r wasg neu flog yn Gymraeg, byddwn yn trafod y cais a, lle bo'n rhesymol, yn cytuno ar drefniadau cyfieithu.

Datganiadau i'r Wasg

Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg fel arfer.

Mae'n bosibl y bydd hysbysiadau neu ddigwyddiadau lle'r ystyrir bod cyflwyniad dwyieithog yn briodol a lle bo'n rhesymol, darperir hyn.

Polisiâu, ffurflenni a deunydd esboniadol

Bydd polisiâu, ffurflenni a gwybodaeth esboniadol a roddir i gwsmeriaid fel arfer yn Saesneg.

Fodd bynnag, byddwn yn **dangos yn glir** sut y gall cwsmeriaid ofyn am fersiwn Gymraeg ac ar gyfer eitemau penodol y mae cyhoeddi neu ddarparu fersiwn Gymraeg yn briodol ar eu cyfer, bydd hyn yn cael ei ddarparu.

Os dangosir ar unrhyw adeg yn y dyfodol fod galw sylweddol am ddeunyddiau Cymraeg, yna bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu.

Os gofynnir am bolisi iaith Gymraeg, ffurflen neu ddeunydd esboniadol, byddwn yn ceisio ei ddarparu os yw hyn yn bosibl ac yn ymarferol.



Hysbysiadau Swydddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

Bydd ein hysbysiadau swydddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fydd yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Byddant yn **gyfartal** o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn **ddwyieithog** ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl.

Bydd pecynnau gwybodaeth, megis disgrifiadau swydd a manylebau person yn cael eu **paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg** ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Os byddwn yn defnyddio'r wasg Gymraeg i hysbysebu, bydd ein hysbysebion yn y cyhoeddiadau hynny yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.



Gweithredu a monitro'r cynllun



Staff a recriwtio

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan United Welsh yn amrywiol eu natur, a defnyddir dulliau cyfathrebu gwahanol.

Byddwn yn trefnu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i'r cyhoedd gael mynediad i staff sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol i **dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg**. Bydd y graddau y mae hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaeth.

Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy ein recriwtio a hyfforddi, ac yn gosod gofynion iaith Gymraeg (dymunol neu hanfodol) ar rai swyddi, gan ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Maint ac amllder y cyswllt â'r cyhoedd
- Gallu presennol y tîm i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gall arbenigedd y swydd, h.y. sgiliau yn y Gymraeg fod yn hollbwysig mewn rhai meysydd penodol.

Pan fo'n ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, bydd hyn yn cael ei **nodi'n glir** yn adran gymwysterau'r swydd. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sydd ei angen ar gyfer y

swydd, er enghraifft "bod yn siaradwr Cymraeg rhugl".

Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer **cynnydd posibl yn y galw** am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig o wasanaeth yn Gymraeg.

Byddwn yn **cynyddu'r adnoddau** ar gyfer gweithredu'r cynllun mewn modd sensitif drwy annog a chefnogi pob aelod o staff i gymryd rhan.

Byddwn hefyd yn **datblygu sgiliau yn yr** iaith yn ogystal ag agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ni ddylid atal yr aelodau hynny o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg rhag ei hymarfer a byddwn yn trin sgiliau iaith mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd angen eu datblygu.

Aelodau'r Bwrdd

Mae'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad ar Fwrdd United Welsh yn cael ei adolygu'n barhaus i wneud yn siŵr bod y cymysgedd yn iawn ar gyfer cyflawni Ein Strategaeth, a bod cydbwysedd y cefndir a'r profiad yn cyd-fynd â'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Bydd United Welsh yn **annog cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a Saesneg** ar ei Fwrdd Rheoli drwy gynnwys iaith yn yr adolygiad blynyddol o sgiliau Aelodau'r Bwrdd. Gall y Bwrdd benderfynu blaenoriaethu siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio a chyfethol aelodau newydd.

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Bydd United Welsh yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg lle bynnag y bo modd.

Bydd y math o hyfforddiant iaith a gynigir i staff yn briodol i anghenion personol a phroffesiynol pob unigolyn a gofynion y sefydliad, ond gallai gynnwys:

- Cyflwyniad cyffredinol i'r Gymraeg ar apiau fel Duolingo i ddechrau dysgu'r iaith
- Mynediad at adnoddau ac offer i helpu i ddatblygu sgiliau iaith gan gynnwys gwylliau, digwyddiadau, gwefannau, llyfrau, cyfryngau a grwpiau iaith sydd ar ddod.
- Mynediad at ddysgwyr eraill i helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach
- Opsiynau i fynychu sesiynau pan fydd sgiliau yn cyrraedd lefel benodol gyda'r nod o gyrraedd lefel defnyddiadwy o fewn y sefydliad

- Rhwydwaith staff anffurfiol ar gyfer ymarfer sgwrs o fewn gofod dysgu diogel gyda staff yn fwy hyderus yn yr iaith. Cynnig y cyfle i fagu hyder.
- Mynediad i sesiynau i helpu i ddatblygu hyfedredd mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar fel y bo'n briodol.

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i staff ynghylch pa rai o'n cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg a pha gydweithwyr sy'n gallu cefnogi datblygiad personol pobl sy'n dysgu'r Gymraeg ac sy'n gwneud busnes yn Gymraeg.

Bydd United Welsh hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff am ofynion y cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth sefydlu staff newydd.



Trefniadau Gweinyddol

Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a nodir yn y cynllun hwn wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd United Welsh.

Bydd United Welsh yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun a bod staff yn gwybod sut y dylid ei weithredu a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Bydd cyflwyniad i'r cynllun hefyd yn rhan o broses sefydlu staff United Welsh.

Bydd cyfarwyddwyr a rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.



Monitro ein Cynllun Iaith Gymraeg

Bydd monitro'r cynllun hwn yn weithgaredd parhaus a strwythuredig a bydd yn cynnwys monitro'r meysydd canlynol:

- Nifer a dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad
- Nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg ac yn cymryd rhan mewn cynigion cymorth
- Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith
- Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd am fersiynau Cymraeg o ddeunyddiau penodol
- Nifer y cwynion am y Gymraeg (defnyddio trefn gwyno United Welsh i gofnodi ac ymdrin â chwynion am y cynllun hwn)

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb ar lefel gorfforaethol am fonitro'r cynllun; fodd bynnag, bydd gan bob Cyfarwyddwr gyfrifoldeb am eu meysydd gweithredu penodol.

Bydd y cynllun yn destun adroddiad blynyddol i Dîm Gweithredol United Welsh i'w adolygu a lle bo angen, nodi a gweithredu gwelliannau.



Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud ag United Welsh yn gwybod am y cynllun hwn, a sut y gallant ddefnyddio ein gwasanaethau neu weithio gyda ni yn Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio ein dulliau arferol o gyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r cynllun, a fydd yn cynnwys cyhoeddi'r cynllun ar ein gwefan.